Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad Amgylcheddol

## (gan gynnwys adrodd ar y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau)
## Tachwedd 2020

## Pwy ydym ni

Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cefnogi rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel i Lywodraeth Cymru a dinasyddion Cymru. Rydym yn annibynnol ar, ond yn cael ein hariannu gan, Lywodraeth Cymru (adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

Mae Ein blaenoriaethau, sy'n amlinellu ein cenhadaeth a'n gweledigaeth, ein hamcanion strategol a'n gwerthoedd, ar gael ar ein gwefan. Mae'r adran Amdanom ni ar ein gwefan yn esbonio'r gwaith a wnawn ymhellach.

## Adroddiad cynaliadwyedd ac adrodd am y ddyletswydd bioamrywiaeth

Mae'n ofynnol i Estyn gydymffurfio â dyletswydd adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cyflwynodd y Ddeddf hon ddyletswydd fanylach ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth arfer swyddogaethau yn gysylltiedig â Chymru. Mae dyletswydd adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol 'i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol'.

I gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, dylem ymgorffori ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn ein syniadau a'n cynllunio busnes cynnar, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'n gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Rhaid i ni gyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn rydym yn cynnig ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd. Hefyd, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, rhaid i ni gyhoeddi adroddiad ar yr hyn rydym wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6. Dylai'r ddyletswydd adrodd ffurfio rhan o'n systemau adrodd arferol. Ni ddylai'r ddyletswydd adrodd fod yn feichus a dylai fod yn gymesur â maint y sefydliad a'r math o sefydliad ydym ni, o ran y camau y gallwn eu cymryd ar gyfer bioamrywiaeth.

Yn Estyn, rydym wedi cynnwys ein cynllun yn amlinellu'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd yn ein Polisi Amgylcheddol. Rydym hefyd yn cyhoeddi'r Adroddiad Amgylcheddol hwn yn flynyddol, sy'n cynnwys ein cydymffurfiad â'r ddyletswydd adran 6.

## Amcanion amgylcheddol

Rydym wedi nodi bod ein prif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o: gludiant, defnyddio ynni a chynhyrchu gwastraff.

Byddwn yn ceisio lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, trwy ymrwymo i set gynhwysfawr o amcanion amgylcheddol:

1. Parhau i ddefnyddio ynni'n effeithlon a monitro'r $CO_2$ a gynhyrchir, gan anelu at ostyngiad o 10% dros y pum mlynedd nesaf (yn seiliedig ar ffigurau 2017-2018).
2. Yn unol ag ymrwymiad LIC "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", peidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.
3. Yn unol ag ymrwymiad LIC "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (yn seiliedig ar ffigurau 2013-2014).
4. Lleihau effaith cludiant y sefydliad sy'n cyfrannu at y targed $CO_2$ (amcan 1).
5. Cyfleu mentrau amgylcheddol a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ehangach i'r cyhoedd a'r staff.
6. Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

### Cysylltiadau ag amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru

Yn unol â'r hyn a argymhellwyd yn yr arweiniad ar y ddyletswydd adran 6, mae ein gweithgareddau'n cyd-fynd â'r amcanion perthnasol yng Nghynllun Adfer Natur Cymru (NRAP). Mae'r rhain yn adlewyrchu nodau strategol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, sef y cytundeb rhyngwladol allweddol ar fioamrywiaeth y mae Llywodraeth y DU wedi'i lofnodi. Mae'r arweiniad yn nodi y dylai sefydliadau sydd â deiliadaeth adeilad swyddfa yn unig ac nad yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig yn uniongyrchol â bioamrywiaeth a/neu reoli tir gysylltu ag amcanion 1, 4 a 6.

- Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled penderfyniadau a wneir ar bob lefel
- Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd
- Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith ar gyfer cyflenwi

Rydym wedi nodi yn ein hadroddiadau ble mae ein camau gweithredu yn cyfrannu at amcan perthnasol Cynllun Adfer Natur Cymru.

**Mae gweithgarwch prif ffrydio bioamrywiaeth wedi tueddu i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd, er enghraifft trwy liniaru newid yn yr hinsawdd / datgarboneiddio ac arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau.**

## Ein perfformiad 2019-2020


1. **Parhau i ddefnyddio ynni'n effeithlon a monitro'r $CO_2$ a gynhyrchir[1], gyda'r nod o'i leihau 10% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2017-2018).**

Allyriadau $CO_2$:

| | | |
|---|---|---|
| Gwaelodlin Estyn | 2017 - 2018 | 153,727 kg $CO_2$ |
| **Targed erbyn** | **2022 - 2023** | **138,354 kg $CO_2$** |
| Gwirioneddol | 2018 - 2019 | 102,660 kg $CO_2$ |
| | 2019 - 2020 | 120,709 kg $CO_2$ |

Roedd yr amcan hwn, a gyflwynwyd yn 2018-19, yn deillio o adolygiad o lwyddiant Estyn i leihau allyriadau dros y cyfnod targed blaenorol, ynghyd ag ystyried effaith gadarnhaol debygol prosesau ac arloesiadau cyflenwyr. Cyfanswm ein hallyriadau $CO_2$ yn 2019-2020 oedd 120,709 kg. Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd o 17.6% dros y 12 mis diwethaf, mae'r canlyniad hwn ymhell o fewn ein targed o hyd.

Mae'r graff isod yn dangos y duedd o ran allyriadau dros y 7 blynedd diwethaf:





[1] Defnyddiwyd ffactorau trosi blynyddol Defra i gyfrifo allyriadau $CO_2$ trwy gydol yr adroddiad hwn.

Yn gadarnhaol, gostyngodd allyriadau nwy 18.8% yn 2019-2020, efallai oherwydd llai o ddibyniaeth ar reiddiaduron yn ystod y gaeaf gan fod y synwyryddion aerdymheru yn gweithio'n effeithlon, yn ôl y disgwyl. Gan droi at drydan, dyma ein hail flwyddyn yn defnyddio ynni gwyrdd ac, fel y cadarnhawyd gan y Ganolfan Ynni Gwyrdd, gellir cofnodi ein hallyriadau cwmpas 2 ar gyfer trydan sy'n cael ei dynnu o'r grid cenedlaethol fel sero. Caiff tariff ynni 100% adnewyddadwy Estyn ei ategu gan Warantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO).

Oherwydd natur ein busnes, caiff cyfran uchaf yr allyriadau $CO_2$ ei chynhyrchu gan ein defnydd o gludiant o hyd; cynyddodd allyriadau cludiant 23% i 109,977kg yn 2019-2020, o gymharu ag allyriadau'r flwyddyn flaenorol, sef 89,488. Gellir priodoli hyn i allyriadau petrol a diesel, a gynyddodd 27.7% a 26.6% yn ôl eu trefn. Yn y cyfamser, gostyngodd allyriadau rheilffyrdd ac awyr 28.7% ac 16.4% yn ôl eu trefn.

Mae cyfran yr allyriadau $CO_2$ a gynhyrchwyd o nwy a theithio ar gyfer y cyfnod i'w gweld isod:





Nodir rhagor o fanylion am y mentrau y mae Estyn yn eu hyrwyddo i gefnogi gostyngiad yn ei allyriadau $CO_2$ o gludiant yn adran 4 isod.

Defnydd o ynni:

Gostyngodd y defnydd o ynni 18.8% yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Dylid nodi bod costau am ddefnydd o nwy yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r landlord ar ffurf cost gwasanaeth chwarterol, a gyfrifir yn gymesur yn unol â deiliadaeth Estyn o'r adeilad.

Fel y nodwyd uchod, mae allyriadau o drydan bellach yn sero, a gostyngodd ein defnydd 12.4% eleni (a ddangosir yn y graff isod). Mae'n ymddangos bod y synwyryddion symudiad a osodwyd yn yr holl ystafelloedd cyfarfod i weithio ar y cyd â'r system aerdymheru ar ddechrau 2019 yn dangos eu heffeithiolrwydd bellach. Byddwn yn parhau i adolygu defnydd yn rheolaidd er mwyn monitro hyn.




Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.


**2. Yn unol ag ymrwymiad LIC "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", peidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.**

Mae'n bleser gennym gadarnhau, o 2018-19, nad ydym wedi anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi. Ein targed newydd ar gyfer 2019-2020 ymlaen yw cynnal lefelau ailgylchu/adfer ynni ar 100%.

Mae gennym nifer o ddulliau ailgylchu/adfer ynni[2] ar waith ar gyfer ein hystod o ffrydiau gwastraff:


- caiff papur, caniau alwminiwm, poteli plastig a gwastraff bwyd eu hailgylchu gan ddefnyddio gwasanaethau'r cyngor
- caiff offer TG ei ailgylchu gan ddefnyddio menter fach leol, sef Ecycle
- caiff ein 'gwastraff bagiau duon' ei losgi yn llosgydd Viridor Trident Park, gan adfer ynni
- gwastraff glanweithiol – yn 2017-18, fe wnaethom adrodd mai gwastraff glanweithiol oedd ein ffrwd wastraff olaf a oedd yn mynd i safleoedd tirlenwi o hyd ac, yn ystod y flwyddyn honno, cyflwynodd ein darparwr gwasanaeth, PHS, broses rheoli gwastraff gynaliadwy batentedig, lle caiff ynni ei adfer o'r gwastraff ar ffurf Tanwydd yn Deillio o Sbwriel (RDF).

[2] Ailgylchu/adferiad ynni Estyn ar sail pwysau mewn kg o wastraff




Mae'r siart isod yn dangos yn fanylach gyfran y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi o gymharu â phob un o'n ffrydiau gwastraff wedi'i ailgylchu ar gyfer y cyfnod o saith blynedd:

**Cyfran pob ffrwd gwastraff wedi'i ailgylchu o gymharu â thirlenwi 2013-14 i 2019-20**




Mae'r graff uchod yn dangos:

- bod gwastraff cyffredinol wedi cynyddu 49% eleni. Roedd hyn yn rhannol oherwydd ymarfer tacluso mawr a oedd yn cynnwys clirio storfeydd a'r ystafell gweinyddion ar amryw adegau yn ystod y flwyddyn
- bod gwastraff bwyd wedi cynyddu 42%, o bosibl oherwydd, cynnydd yn nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd ar y safle, yn ogystal ag arlwyo ar y safle ar gyfer digwyddiad i holl staff y Gwasanaethau Corfforaethol yn 2019-2020
- bod gwastraff cyfrinachol wedi gostwng 43% eleni (roedd gwastraff y llynedd o ganlyniad i gydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, yn bennaf).

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.

**3. Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru (LIC) "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (yn seiliedig ar ffigurau 2013-2014).**

| | |
|---|---|
| **Gwaelodlin 2013-2014:** | **8,080 kg o sgil-gynnyrch gwastraff blynyddol (R-5,767 kg/L-2,313 kg)** |
| **Targed:** | **Gostyngiad o 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050.** |
| 2014-2015: | 6,891 kg (R-5,456 kg/L-1,435 kg) |
| 2015-2016: | 9,175 kg (R/ER-8,319 kg/L-856 kg) |
| 2016-2017 | 7,847 kg (R/ER 7,301 kg/L 546 kg) |
| 2017-2018 | 5,774 kg (R/ER 5,228 kg/L 546 kg) |
| 2018-2019 | 6,003 kg (R/ER) |
| 2019-2020 | 6,263 kg (R/ER) |




Er y gallwn adrodd yn llwyddiannus y caiff yr holl wastraff ei ailgylchu erbyn hyn, roedd cynnydd cyffredinol o 4% yng nghyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd unwaith eto yn 2019-2020.

Rydym wedi dangos ymrwymiad cyson i leihau gwastraff yn ein prosesau recriwtio a chaffael, trwy gynnal pob ymgyrch yn electronig; ac wedi cynyddu ymhellach ein defnydd o gyfathrebu electronig ar gyhoeddiadau allanol ac wrth ddefnyddio deunyddiau hyfforddi ar gyfer arolygwyr allanol.

Mae ein mentrau ymgorfforedig eraill yn cynnwys:

- Microsoft Sharepoint, sef platfform ar gyfer TGCh Estyn sy'n cefnogi cydweithio ac yn cynnwys ystafell arolygu rithwir ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr ac Estyn
- dosbarthu adroddiadau arolygu yn electronig i Aelodau'r Senedd a darparwyr
- dosbarthu'n electronig gylchlythyrau mewnol ac allanol ar-lein; a
- chyhoeddi ein dogfennau corfforaethol ac adroddiadau cylch gwaith yn electronig, yn hytrach nag argraffu copïau papur

Mae'r siart isod yn dangos yr amrywiad yn nifer y rimau papur a chetris argraffu a ddefnyddiwyd dros y cyfnod:





Cyfanswm ein gwariant ar wastraff yn 2019-2020 oedd £2,918.00, a oedd yn cynnwys gwasanaethau'r cyngor lleol a gwasanaeth ailgylchu arbenigol ar gyfer 'gwastraff sensitif oddi ar y safle'.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.

## 4. Lleihau effaith cludiant y sefydliad sy’n cyfrannu at y targed i leihau $CO_2$ (amcan 1).

Rydym yn annog cydweithwyr i rannu ceir wrth deithio ar fusnes swyddogol. Mae hyn, ynghyd â’r defnydd cynyddol o gyfleuster galwadau cynadledda rhyngweithiol, fel Starleaf a Microsoft Teams, yn cynorthwyo’r sefydliad yn gadarnhaol yn ei nod i leihau teithio i gyfarfodydd. Fodd bynnag, roedd milltiredd blynyddol yr arolygiaeth ar gyfer y defnydd o geir preifat a cheir wedi’u llogi, a gofnodwyd ar ddiwedd 2019-2020, yn dangos cynnydd o 28% o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Yn unol â hynny, cynyddodd allyriadau carbon yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Gweler y siart isod.

O gymharu â 2018-2019, roedd gennym tua 6% yn fwy o staff arolygu yn 2019-2020, a chynyddodd nifer yr hawliadau am dreuliau milltiredd tuag 8%. Roedd ein gweithgareddau busnes craidd (arolygiadau) yn debyg o un flwyddyn i’r llall, ac felly gellir rhagdybio’n rhesymol ei fod yn ofynnol i arolygwyr deithio ymhellach i ddarparwyr, ar gyfartaledd. Gallai ffactorau eraill a all fod wedi cyfrannu at y cynnydd o ran milltiredd gynnwys nifer uwch o deithiau nad oeddent yn deithiau arolygu, er enghraifft ymweliadau ymgysylltu. Byddwn yn rhoi systemau teithio a chynhaliaeth newydd ar waith yn 2021, ac yn cynnwys cyfleuster i gynnig adroddiadau a dadansoddiad mwy manwl.




O ran ein gweithgarwch i leihau ein heffaith o ran cludiant, rydym yn llogi ceir drwy gontract a gefnogir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, lle mae cyflenwyr yn diweddaru eu fflyd cerbydau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod gan y ceir sydd ar gael yr allyriadau isaf; mae hyn yn cefnogi ymhellach ein nod o leihau effaith allyriadau $CO_2$ o gludiant.

Rydym yn annog staff sy'n gyrru fel rhan o'u rôl i yrru'n ddiogel a defnyddio tanwydd yn effeithlon trwy gynnig cyrsiau i newydd ddyfodiaid a staff presennol. Rydym hefyd yn ymdrechu i drefnu cyrsiau a digwyddiadau'n ddaearyddol i leihau teithio i ddigwyddiad – mae ein polisi ar gyfer gyrru fel rhan o ddyletswyddau swyddogol yn amlinellu ymagwedd Estyn tuag at yrru tra bydd staff yn ymgymryd â busnes swyddogol.

Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno Cynllun Ceir Gwyrdd (prydlesi cerbydau gwyrdd). Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu cynllun tebyg ar hyn o bryd, a fydd yn caniatáu i'w staff a staff Estyn (fel rhan o'n trefniadau cyflogres â Llywodraeth Cymru) ddefnyddio'r cynllun.

Mae ein busnes craidd yn cynnwys teithio ledled Cymru i ymweld â darparwyr ar draws pob sector addysg. Yn ystod 2019-2020, cynyddodd cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ o gludiant (car, rheilffordd* ac awyr) 20,529kg $CO_2$ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae allyriadau cludiant blynyddol (car, rheilffordd ac awyr) yr arolygiaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i'w gweld isod.




*Sylwer: O 2018-2019, cyfrifwyd allyriadau rheilffordd gwirioneddol ar gyfer pob taith ar y rheilffordd. Cyn hyn, cyfartaledd ar gyfer pob taith yw'r allyriadau rheilffordd a gofnodwyd.

Fel y nodwyd uchod, mae allyriadau cludiant yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'n hallyriadau $CO_2$, sef 91% o gyfanswm yr allyriadau yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd cyfran yr allyriadau $CO_2$ ar draws yr holl ffrydiau cludiant dros y saith blynedd diwethaf fel a ganlyn:

| | **Diesel** | **Petrol** | **Rheilffordd** | **Awyr** |
|---|---|---|---|---|
| 2013-14 | 53.5% | 41.8% | 1.6% | 3.1% |
| 2014-15 | 58.2% | 37.8% | 1.8% | 2.2% |
| 2015-16 | 54.6% | 39.7% | 1.4% | 4.3% |
| 2016-17 | 56.0% | 38.3% | 1.8% | 3.9% |
| 2017-18 | 54.2% | 39.7% | 1.8% | 4.4% |
| 2018-19 | 47.2% | 43.6% | 1.8% | 7.3% |
| 2019-20 | 49.0% | 44.9% | 1.0% | 5.0% |

Ein nod yw gostwng ein hallyriadau $CO_2$ o gludiant yn barhaus, fel yr amlinellir uchod, ond fel arolygiaeth sy'n gweithio ledled Cymru, mae ein heffaith o ran cludiant yn agwedd allweddol ar ein gwaith.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.

## 5. Cyfleu mentrau amgylcheddol a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ehangach i'r cyhoedd a staff.

### Llywodraethu a chymorth

Mae ein Bwrdd Gweithredol, sy'n cael ei gadeirio gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn gyfrifol am gynaliadwyedd a chydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn aelod o'r Bwrdd ac ef yw'r Cyfarwyddwr sydd â chyfrifoldeb am gynaliadwyedd, gan gynnwys y ddyletswydd bioamrywiaeth. Caiff ei gynorthwyo gan y Pennaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, sef y Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd.

Mae ein Rheolwr Caffael yn gweithio gyda'r Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd i oruchwylio systemau rheolaeth amgylcheddol Estyn. Mae'r tîm Gwasanaethau Swyddfa yn cynnal systemau rheolaeth amgylcheddol Estyn o ddydd i ddydd, er enghraifft cofnodion gwastraff, cofnodion papur ac offer ysgrifennu, a chofnodion defnyddio ynni. Yn ychwanegol, mae'r tîm Caffael yn rheoli cofnodion teithio staff ac yn parhau i ymgorffori ystyriaethau cynaliadwyedd mewn gweithdrefnau prynu.

Mae'r Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau yn fforwm rheolaidd ar gyfer trafod materion busnes gweithredol. Mae'r Grŵp yn monitro cynnydd yn unol ag amcanion a thargedau gwelliant amgylcheddol yn rheolaidd; bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu a nodwyd o dan ddyletswydd adran 6. Caiff y grŵp ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac mae'r aelodau'n cynnwys y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol (Arolygu) a staff gwasanaethau corfforaethol ar radd Swyddog Gweithredol Uwch, ac yn uwch.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 6 Cynllun Adfer Natur Cymru.

**Codi ymwybyddiaeth**

Mae prosesau arolygu Estyn yn parhau i sicrhau bod dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol. Mae llawer o ysgolion yn dechrau cryfhau'r agwedd hon ar addysg disgyblion wrth iddynt ymateb i'r pedwar diben yn y Cwricwlwm i Gymru ac, yn benodol, wrth iddynt anelu at ddatblygu dysgwyr yn 'ddinasyddion sy'n wybodus yn foesegol'.

Mewn arolygiadau yn ystod 2019-2020, nodwyd arfer gref ar draws yr ystod lawn o leoliadau, gan gynnwys meithrinfeydd nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion. Pan nodwyd nodweddion cryf, roeddent yn cynnwys:

- modelu arfer dda mewn lleoliadau meithrin, annog disgyblion i ddiffodd tapiau a gwobrwyo 'ailgylchydd yr wythnos'
- addysgu disgyblion cynradd am eu hôl troed carbon a sut i wneud dewisiadau cynaliadwy, gan ddatblygu prosiectau trawsgwricwlaidd, er enghraifft gweithgaredd mathemateg i gyfrifo faint o ddŵr mae'r ysgol yn ei ddefnyddio bob dydd a chynnwys y gymuned ehangach, er enghraifft cynnwys neiniau a theidiau mewn prosiect plannu coed
- cefnogi disgyblion mewn ysgolion uwchradd i arwain eu prosiectau amgylcheddol eu hunain, a'u hannog i godi arian i'r rhai sy'n llai ffodus na'u hunain
- hybu pwysigrwydd cynaliadwyedd ac annog dysgwyr i ystyried ffyrdd i ailgylchu ac arbed ynni yn eu swyddi mewn dysgu yn y gwaith; ac
- addysgu oedolion sy'n dysgu am gyllidebu a lleihau gwastraff bwyd.

Hefyd yn ystod 2019-2020, amlygodd cyhoeddiad arfer effeithiol Estyn, Mynd ag addysg allan i'r awyr agored, fel mae dysgu yn yr awyr agored mewn ysgol ym Mhenrhyn Gŵyr nid yn unig wedi annog medrau, fel datrys problemau a chyd-drafod, ond hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau penodol i fod â datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol. Er nad yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol i Estyn, rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith i gynnwys elfennau angenrheidiol datblygu cynaluadwy yn ein hamcanion strategol a'n hegwyddorion cyflawni. Mae Atodiad 2 ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon wedi'i gyhoeddi ar wefan Estyn, ac mae'n cynnwys sut mae Estyn yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth i Gymru sydd wedi'i hamlinellu yn y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio (yr egwyddor datblygu cynaliadwy). Mae'r Atodiad yn cynnwys llawer o enghreifftiau o adnoddau gwella, gan gynnwys adroddiadau thematig ac astudiaethau arfer effeithiol, sy'n cyfrannu at y nodau llesiant.

Rydym wedi gweithio hefyd i gyfleu gwybodaeth a chymorth priodol i gynorthwyo staff i arfer eu cyfrifoldeb amgylcheddol yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, mae ein Polisi Amgylcheddol a'r Adroddiad Amgylcheddol hwn wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan, mae

erthyglau amgylcheddol wedi eu cynnwys yn ein cylchlythyr staff, mae ein Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau yn fforwm bob yn ddeufis ar gyfer materion gweithredol ac mae wedi cynnwys cynnydd yn erbyn amcanion a thargedau amgylcheddol, ac mae asesiadau effaith, a gynhelir ar gyfer holl bolisïau Estyn, wedi cynnwys ystyriaeth o berfformiad amgylcheddol

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 1 Cynllun Adfer Natur Cymru.

## 6. Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

Caiff yr holl nwyddau a gwasanaethau eu caffael gan ddefnyddio prosesau electronig.

Wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag arolygu, rydym yn gofyn i gyflenwyr wneud pob ymdrech i gefnogi ein hymrwymiad i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd, ac yn darparu dolen i'n Polisi Amgylcheddol er mwyn rhoi arweiniad iddynt.

Wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag arolygu, caiff cyflenwyr eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth o sut byddant yn ein cynorthwyo i fodloni ein hamcanion amgylcheddol, yn rhan o fodloni ein meini prawf gwerthuso tendrau; caiff cyflenwyr eu cyfarwyddo hefyd i ddarparu dolenni i'w gwefan a sganio ardystiad perthnasol i ddangos tystiolaeth o hyn, yn hytrach nag anfon dogfennau manwl gyda'u cynnig.

Wrth droi at gaffael gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag arolygu, mae Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract yn cyflwyno eu cyfraddau tendro arolygiadau i ni'n electronig trwy borth diogel. Gall Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract dderbyn neu wrthod cynigion contract trwy'r porth diogel hwn hefyd. Mae'r system hon hefyd yn gyfrwng effeithiol ar gyfer rheoli'r arfer o ddarparu a lleoli Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract, ac mae wedi cael gwared ar yr angen i gyhoeddi llythyrau cynnig, gan leihau'r gofynion argraffu i'r naill barti a'r llall.

Bydd cyflenwyr a ddarperir trwy fframweithiau'r llywodraeth eisoes wedi dangos eu hymrwymiad i wella'r amgylchedd i gymhwyso i gael eu cynnwys mewn rowndiau tendro. Pan nad oes fframwaith addas gan y llywodraeth, neu ar adegau pan nad yw cost nwyddau/gwasanaethau yn gofyn am dendr llawn, darperir cyflenwyr trwy gronfa ddata Sell2Wales; sydd hefyd yn cefnogi mentrau bach a chanolig yng Nghymru. Mae defnyddio'r llwybr hwn wedi ein galluogi i ymgysylltu â chyflenwyr lleol, a lleihau allyriadau a'r ôl troed carbon lle bo modd; er enghraifft, defnyddir cwmnïau lleol ar gyfer pob digwyddiad arlwyo mewnol; gwasanaethau ffilmio ar gyfer ein deunydd arfer orau/hyfforddiant; gwasanaethau dylunio graffeg a ffotograffiaeth ddigidol ar gyfer Adroddiad Blynyddol PAEM.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.

## Datganiad amgylcheddol / Dilysu'r adroddiad

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Datganiad/Adroddiad Amgylcheddol hwn wedi'i samplu a'i dilysu gan archwilydd y Ddraig Werdd, a chanfu ei bod yn asesiad teg a chywir o weithgareddau a pherfformiad amgylcheddol y sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf o fewn cwmpas diffiniedig y sefydliad.

| | |
|---|---|
| Archwilydd Arweiniol | Bethan Harries |
| Sefydliad Archwilio | Green Business Centre<br><br>*(ar ran Groundwork Wales)* |
| Dyddiad yr Archwiliad | 12/01/2021 |
| Yn ddilys hyd | 11/01/2022 |

Nid yw dilysu'r Datganiad/Adroddiad Amgylcheddol hwn yn cadarnhau bod System Rheolaeth Amgylcheddol y sefydliad wedi'i hardystio yn unol â Safon y Ddraig Werdd. Gellir cadarnhau'r ardystiad drwy gael copi o dystysgrif y Ddraig Werdd ddilys y sefydliad neu drwy fynd at wefan y Ddraig Werdd, sef www.greendragonems.com